

Arolygiad Dilynol (Dirybudd) Gwasanaeth Iechyd Meddwl

**Ysbyty Annibynnol Ysbyty
Dewi Sant**

Mental Healthcare UK

Dyddiad yr Arolygiad: 20 ac 21

Mawrth 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Mehefin 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	14
4.	Y Camau Nesaf.....	17
5.	Methodoleg	18
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl Ysbyty Annibynnol Dewi Sant, o fewn Gofal Iechyd Meddwl y DU ar noson 20 Mawrth ac yn ystod y dydd ar 21 Mawrth 2017. Ymwelwyd â'r ysbytai a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ysbyty Annibynnol Dewi Sant

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un rheolwr arolygu AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol, (un ohonynt oedd adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd) ac adolygydd lleig sy'n aelod o staff AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 6.

2. Cyd-destun

Ar hyn o bryd mae Ysbyty Annibynnol Dewi Sant yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ym mhentref Carrog ger ardal Corwen yn Sir Ddinbych, gogledd Cymru. Mae Ysbyty Annibynnol Dewi Sant yn ysbyty adsefydlu agored i bobl sydd ag anabledd dysgu o fewn Gofal Iechyd Meddwl y DU.

Mae'r lleoliad yn uned i ddynion yn unig ac mae 15 gwely ynddo. Roedd naw claf yn byw yno ar adeg yr arolygiad.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig (Rheolwr yr Ysbyty), seiciatrydd (y clinigydd cyfrifol ar gyfer cleifion yn Ysbyty Dewi Sant), Nyrs Arwain Clinigol, dwy Uwch Nyrs, seicolegydd clinigol fforensig a chynorthwydd, Uwch Weithiwr Cymdeithasol, therapydd galwedigaethol a thri chynorthwydd therapydd galwedigaethol, tîm o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Ysbyty Dewi Sant yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r grŵp cleifion..

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y siaradom â nhw'n hapus gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd amrywiaeth addas o therapïau a gweithgareddau.
- Roedd dogfennau'r cleifion wedi cael eu cwblhau a'u cynnal i safon uchel.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Y staff i gydweithio ag amrywiaeth eang o aelodau staff fel y gellir rhannu arfer da.
- Hyfforddiant ychwanegol i staff er mwyn iddynt fodloni anghenion y grŵp cleifion yn well.
- Trafod â staff i gael awgrymiadau ynghylch gweithgareddau ychwanegol i'r cleifion.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn:

- Dylid cadarnhau bod gwaith adnewyddu a chynnal a chadw wedi cael ei gwblhau.
- Dylid recriwtio staff er mwyn bodloni Datganiad o Ddiben yr ysbyty.
- Dylid darparu hyfforddiant priodol a rheolaidd, goruchwyliaeth ac arfarniadau.
- Dylai cofnodion y cleifion gael eu gosod yn eu trefn gywir ac ni ddylent gynnwys gwybodaeth nad yw'n gyfredol.

Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau.

3. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch wrth ddarparu gofal adsefydlu unigol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn cynnal hawliau'r cleifion ac yn eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl.

Roedd gan bob claf gynlluniau gweithgareddau unigol a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth o weithgareddau adsefydlu a hamdden. Roedd Coed Bach, y ganolfan ddydd yn Ysbyty Dewi Sant yn darparu amrywiaeth o gyfleusterau ar gyfer therapiau a gweithgareddau cleifion. Fodd bynnag, roedd nifer o feysydd a oedd angen derbyn sylw neu wella'r cyfleusterau.

Urddas a pharch

Canfuom fod cleifion yn yr ysbyty yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff sy'n gweithio yno ac roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nogfennau gofal y cleifion.

Roedd yr ysbyty yn darparu gofal, triniaeth a chymorth i gleifion gwrywaidd yn unig. Roedd gan gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain a oedd yn darparu'r cleifion â lefel dda o breifatrwydd. Roedd gan naw ystafell wely gyfleusterau en suite; roedd cyfleusterau ystafell ymolchi cymunedol ar gyfer y cleifion hynny oedd heb en-suite. Roedd cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd ac roedd ganddynt ddigon o le i gadw eu heiddo. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn ac roedd ganddynt eu cerdyn electronig eu hunain er mwyn cael mynediad i'w hystafell; roedd y staff yn gallu agor y cloeau os oedd angen gwneud hynny.

Roedd gan gleifion fynediad at ddwy lolfa; roedd y rhain wedi cael eu hadnewyddu i safon uchel gyda gosodiadau, ffitiadau a chelfi priodol ar gyfer y grŵp o gleifion. Oherwydd y gwaith parhaus o ailwampio'r ysbyty, nid oedd unrhyw gyfleusterau neilltuedig ar gyfer ymwelwyr. Fodd bynnag, cawsom ein sicrhau gan staff bod ystafell briodol ar gael yn ôl yr angen.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn tonau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd mannau trwy'r ysbyty cyfan lle roedd gwybodaeth gyfredol am gleifion yn cael ei harddangos yn glir. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth statudol ynghyd â gwybodaeth am weithrediad yr ysbyty, gweithgareddau a oedd yn digwydd yn yr ysbyty a'r gymuned.

Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth mewn fformat ysgrifenedig ac roedd tystiolaeth bod staff yn trafod y wybodaeth hon wedi ei chofnodi yn eu nodiadau unigol. Ble roedd angen roedd yr ysbyty'n gallu darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu mewn ieithoedd eraill. Gwnaethom sylwi bod cynlluniau therapi galwedigaethol unigol cleifion wedi'u nodi'n ysgrifenedig ac ar ffurf lluniau ac roedd hyn yn helpu dealltwriaeth y cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn treulio amser i drafod gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn aneglur neu wedi camddeall o hyd, byddai staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff ac roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol ar gyfer cynllunio gofal unigol a chyfarfodydd grŵp cymunedol.

Mewn cyfarfodydd unigol roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrff allanol, fel cyfreithwyr neu eiriolaeth. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cyfrannu at rai cyfarfodydd unigol.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd caniatâd gofynnol ar waith).

Roedd gweithgareddau yn amrywio ac yn canolbwyntio ar adfer. Roedd y rhain yn cynnwys Diwrnod Sgiliau Byw¹, ymwybyddiaeth ofalgar², celf a chrefft, siopa a choginio, therapi ymddygiad dialectig³ ioga chwerthin⁴.

Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau'n cael ei fonitro a'i archwilio. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn annog cleifion i gymryd rhan yn y gweithgareddau a oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer. Os oedd cleifion yn gwrthod, gwelsom y staff yn cynnig gweithgareddau eraill ac roedd hyn yn cael ei nodi yng nghofnod y claf. Roedd archwiliad o gymryd rhan mewn gweithgareddau a fyddai'n llywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Yn ystod ein harolygiad, roedd yn siomedig nodi bod sesiwn Diwrnod Sgiliau Byw un claf wedi gorfod cael ei ganslo am fod gweithiwr allweddol y claf wedi cael ei benodi i weithio mewn lleoliad arall o fewn y sefydliad. Gofynnodd staff therapi galwedigaethol i'r claf pa weithgaredd arall yr oedd yn dymuno ei wneud ac roeddent yn gallu darparu hyn i'r claf.

Gwnaethom sgwrsio â nifer o staff a wnaeth sôn bod ganddynt syniadau ynghylch pa weithgareddau ychwanegol roeddent yn dymuno eudarparu i gleifion, yn seiliedig ar eu sgiliau a'u gwaith y tu allan i'w rôl yn Ysbyty Dewi Sant. Roedd yn gadarnhaol clywed rhai syniadau brwdfrydig a ffres. Fodd bynnag, dywedodd rhai staff eu bod wedi awgrymu nifer o syniadau gyda'u cydweithwyr/ rheolwyr llinell ac roeddent wedi eu gwrthod heb ddarparu rheswm. Rydym yn argymhell bod y darparwr cofrestredig yn trafod â'u staff ynghylch syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau ychwanegol ar gyfer ysbyty Dewi Sant ac yn rhoi adborth priodol i'r staff.

¹ Diwrnod Sgiliau Byw – mae claf yn gweithio gyda'u gweithiwr allweddol i ymgymryd ag amrywiaeth o sgiliau bywyd bob dydd i gynnal neu ddatblygu eu gallu.

²Ymwybyddiaeth ofalgar- – gweithgaredd er lles ymenyddol lle mae'r person yn canolbwyntio ar y foment bresennol, eu meddyliau eu hunain a'u teimladau, a'r byd o'u cwmpas.

³ Therapi ymddygiad dialectig – therapi wedi'i gynllunio i gynorthwyo pobl sy'n dioddef o anhwylderau hwyliu yn ogystal â'r rheini sydd angen newid patrymau ymddygiad nad ydynt o les, megis hunan-niweidio, meddwl am ladd eu hunain a chamddefnyddio sylweddau.

⁴Ioga chwerthin – ymarfer sy'n ymwneud â chwerthin gwirfoddol hirfaith. Mae ioga chwerthin yn seiliedig ar y gred bod chwerthin gwirfoddol yn darparu'r un buddiannau ffisiolegol a seicolegol â chwerthin ar hap.

Mae rhan fwyaf o weithgareddau'r cleifion yn Ysbyty Dewi Sant yn cael eu cynnal yn y ganolfan ddydd sef Coed Bach. Mae Coed Bach yn adeilad ar ei ben ei hun sydd wedi'i leoli ar dir Ysbyty Dewi Sant. Mae'n cynnwys cegin therapi galwedigaethol, ystafell synhwyrdd a thair ystafell fawr a ddefnyddir ar gyfer celf a chrefft, gwaith coed a gweithgareddau a therapïau grŵp.

Roedd yr ystafell fwyaf hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell fwyta dros dro tra bod y gwaith adnewyddu'n digwydd.

Roedd maint y gegin therapi galwedigaethol yn rhesymol a thrwy gydol ein harolygiad gwelsom gleifion yn coginio ac yn helpu eu hunain i ddiodydd poeth ac oer. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu'r gegin, roedd nifer o ddrysau naill ai ar goll neu wedi torri ac yn gyffredinol roedd yn edrych yn dreuliedig.

Roedd lle i storio eiddo'r cleifion yn y gegin. Fodd bynnag, roedd staff o'r farn y byddai lle storio unigol ar gyfer pob claf yn fuddiol. Gwnaethom argymhell y dylai'r darparwr cofrestredig ystyried darparu lle i'r cleifion storio eitemau unigol megis pasta sych, bwyd mewn tun ac ati yn y gegin therapi galwedigaethol.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ymgymryd â gwaith adnewyddu yn y gegin therapi galwedigaethol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol ac yn cynnwys yr offer priodol.

Roedd yr ystafell synhwyrdd yn cynnwys dodrefn â chelfi meddal i ymlacio ynddi ac ychydig o offer optegol. Fodd bynnag, teimlwyd y gellid gwella'r cyfleusterau hyn drwy ychwanegu mwy o offer synhwyrdd a fyddai o fudd pellach i'r grŵp o gleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Roedd y dogfennau statudol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi cael eu cwblhau i safon uchel ac yn cydymffurfio â'u deddfwriaeth gysylltiedig. Fodd bynnag, yn unol â'n harolygiad blaenorol, roedd yn anodd darllen ffeiliau'r cleifion oherwydd swmp y wybodaeth, roedd rhywfaint ohoni wedi'i dyblygu neu nid oedd yn gyfredol.

Roedd yr ysbyty ar fin dod i ddiwedd cyfnod hir o waith adnewyddu sylweddol; roedd y mannau a oedd wedi cael eu gwella eisoes wedi cael eu cwblhau i safon uchel. Gwnaethom nodi dwy ardal gymunedol a oedd angen derbyn sylw o ran cynnal a chadw glendid.

Yn gyffredinol, roedd meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel yn Ysbyty Dewi Sant. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi arferion gwael wrth weinyddu meddyginiaethau cudd.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri o'r cleifion a gedwir, sy'n derbyn gofal yn Ysbyty Dewi Sant. Gwnaethom hefyd adolygu'r gweithdrefnau monitro ac archwilio a gafodd eu cynnal gan y Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl.

Roedd y dogfennau a oedd yn cael eu cadw yn Ysbyty Dewi Sant yn drefnus ac yn cynnwys tystiolaeth bod y broses o gadw cleifion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Roedd gweithdrefnau monitro, craffu, ac archwilio cadarn ar waith i sicrhau bod y bobl broffesiynol yn gweithredu yn ôl gofynion y Ddeddf.

Cynllunio a darparu gofal – Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Gwnaethom adolygu tair set o ddogfennau cleifion gan gynnwys dwy set o ddogfennau cynllunio Gofal a Thriniaeth cleifion. Roedd yr holl ddogfennau a adolygwyd gennym wedi cael eu cwblhau i safon broffesiynol uchel. Nodwyd y sylwadau canlynol:

- Roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i ganfod a monitro darpariaeth y gofal, ynghyd ag asesiadau risg yn amlinellu'r risgiau canfyddedig a sut i'w rhwystro a'u rheoli.
- Roedd gwaith monitro iechyd corfforol a hybu iechyd yn cael ei gofnodi'n dda yn nodiadau'r cleifion.

- Gwanethom ddarganfod tystiolaeth o drafodaethau tîm amlddisgyblaethol da, gan gynnwys:
 - Esiampl ragorol o arfer da wrth fynd i'r afael â materion deintyddol ac iechyd corfforol cymhleth un claf a oedd yn ymwneud â gwasanaethau gofal iechyd gofal sylfaenol a gofal eilaidd
 - y penderfyniad i roi meddyginiaeth mewn modd cuddiedig⁵
- Cynlluniau Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar waith i gleifion.

Fodd bynnag, er y ddogfennaeth fanwl, yn unol â'n harolygiad blaenorol ym mis Ionawr 2016, roedd yn anodd darllen ffeiliau'r cleifion oherwydd swmp y wybodaeth, roedd rhywfaint ohoni wedi'i ddyblygu neu nid oedd yn gyfredol. Roedd hyn yn golygu bod dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol yn flinderus, ac ni fyddai hyn yn fuddiol i staff a oedd yn ceisio dysgu am gleifion unigol a sut i ofalu amdanynt.

Cam Gofynnol

Mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu ffeiliau'r cleifion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hawdd ei chanfod ac nad yw'r ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth nad yw'n gyfredol neu wybodaeth sydd wedi'i dyblygu.

Gwnaethom sylwi, er bod gan gleifion gynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol manwl, nid oedd staff wedi nodi tystiolaeth eu bod wedi darllen a deall y cynlluniau, yn unol â gofynion y darparwr cofrestredig ynghylch pob cynllun cymorth ymddygiad.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod y staff yn cofnodi eu bod wedi darllen a deall cynllun cymorth ymddygiad pob claf.

Yr amgylchedd

Mae Ysbyty Dewi Sant yn ysbyty sy'n cynnwys 15 o welyau sy'n darparu gofal a thriniaeth adsefydlu i grŵp o gleifion dynion yn unig. Mae'r ysbyty wedi'i leoli ar gyrion Carrog, ger Corwen, gogledd Cymru. Cafodd yr adeilad ei

⁵ Meddyginiaeth guddiedig - gweinyddu unrhyw driniaeth feddygol mewn modd cuddiedig.

adeiladu yn y 1930au ac mae wedi'i amgylchynu gan diroedd mawr sy'n cynnwys coed aeddfed a llwyni.

Roedd gwaith adnewyddu helaeth a oedd yn cael ei wneud yn ystod ein harolygiad blaenorol ym mis Ionawr 2016, yn dal ar y gweill. Roedd yn amlwg bod y mwyafrif o'r ysbyty wedi cael ei adnewyddu yn sylweddol i safon uchel a dywedwyd wrthym y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau ym mis Ebrill 2017.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod ardaloedd lle roedd gwaith adnewyddu ar waith dan glo er mwyn diogelu cleifion ac eraill.

Yn ystod ein hadolygiad o'r amgylchedd, gwelsom fod cryn dipyn o lwydni ar nenfwd un o'r ystafelloedd cawod a oedd i fyny'r grisiau. Dywedwyd wrthym fod y darparwr cofrestredig eisoes wedi nodi hyn a'i fod ar fin cael ei gywrio.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafelloedd cawod wedi cael eu trin yn briodol er mwyn atal llwydni rhag cronni.

Nodwyd hefyd, mewn tŷ bach un o'r cleifion a oedd wedi'i leoli i fyny'r grisiau, roedd staen mawr ar y llawr o amgylch bowlen y tŷ bach.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod cyfleusterau'r tai bach yn cael eu cadw yn lân ac yn rhydd wrth unrhyw staen.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd gan bob aelod o staff larwm personol y gellid ei ddefnyddio mewn argyfwng. Roedd hefyd larymau galw am nyrs yn yr ystafelloedd gwely. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser wedi'u lleoli o fewn cyrraedd y gwely. Felly pe byddai claf yn methu â symud allan o'r gwely, byddent yn ei chael yn anodd galw am gymorth.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn gallu gofyn am gymorth o'u gwely.

Gwnaeth un claf y gwnaethom siarad ag ef nodi pryderon ynghylch cleifion ac nid oedd bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn eu plith. Gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a dod i'r casgliad bod y darparwr cofrestredig wedi rhoi mesurau digonol ar waith i ddiogelu'r cleifion dan sylw.

Maetheg

Roedd y cleifion yn dewis eu prydau bwyd o'r fwydlen a oedd yn dangos cynllun chwech wythnos ac a oedd yn cynnwys deiet cytbwys. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod prydau eraill ar gael mewn ymateb i anghenion diwylliannol a hoffterau unigolion.

Fel rhan o ofal adsefydlu cleifion roeddent yn cael eu hannog a'u cefnogi i goginio eu prydau eu hunain. Lle roedd gan gleifion ganiatâd absenoldeb Adran 17 roeddent hefyd yn gallu mynd i siopa bwyd fel rhan o'u gweithgareddau adsefydlu a oedd yn canolbwyntio ar y gymuned.

Roedd adnoddau addas ar gael i gleifion gael diodydd poeth ac oer a gwnaethom arsylwi ar gleifion yn mynd i adnoddau cegin y cleifion yng nghanolfan ddydd Coed Bach a gwelsom fod diodydd yn cael eu darparu yn rheolaidd i gleifion gyda'r hwyr.

Roedd trefniadau bwyta dros dro ar waith tra bod gwaith yn yr ystafell fwyta yn yr ysbyty yn dal i fod ar y gweill. Yn ystod y dydd, byddai cleifion yn bwyta eu brecwast a'u cinio yng Nghoed Bach ac yn bwyta eu pryd bwyd gyda'r hwyr yn yr ystafelloedd bwyta dros dro o fewn Ysbyty Dewi Sant.

Gwnaethom arsylwi amser cinio yn y ganolfan ddydd a gweld bod cleifion a staff yn dewis eu hopsiynnau ac roedd y cogydd yn eu paratoi. Roedd yn gadarnhaol nodi bod cleifion yn derbyn y bwyd ar blatiau yn hytrach na chynwysyddion tecawê, fel ddigwyddodd yn ystod ein harolygiad blaenorol. Yn unol â'n harolygiad blaenorol, gwnaethom nodi y gellid gwella'r profiad bwyta drwy newid cyflwyniad y byrddau cinio ac ystyried defnyddio llinellau bwrdd.

Nodwyd gennym, o fewn y coridor diogel sy'n arwain at gegin yr ysbyty, roedd dau gynhwysydd metel a oedd yn cynnwys powdwr llaeth a siwgr a oedd yn cael eu storio'n amhridiol ar y llawr.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod eitemau bwyd yn cael eu storio yn briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan canfuom fod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n ddiogel yn yr ysbyty. Roedd yr ystafell glinig dan glo ac roedd meddyginiaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd archwiliad clinigol yn cael ei gynnal yn wythnosol i sicrhau bod yr holl offer argyfwng yn bresennol rhag ofn y byddai eu hangen.

Roedd yn amlwg bod y staff yn monitro tymheredd yr oergell i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei chadw ar y tymheredd cywir fel y nodir gan y gwneuthurwyr. Fodd bynnag, wrth adolygu gwelsom dri achlysur yn y pythefnos blaenorol lle nad oedd hyn wedi digwydd.

Gwelwyd bod siartiau cofnodion gweinyddu meddyginiaeth wedi'u cwblhau yn ôl y gofyn. Roedd y cofnod o'r defnydd a'r stoc o gyffuriau a reolir yn foddhaol.

Yn ystod ein harsylwad o rownd meddyginiaeth, nodwyd arferion gwael ynghylch gweinyddu meddyginiaeth mewn modd cuddiedig. Roedd y nyrs a oedd â gofal am weinyddu'r feddygyniaeth wedi pasio'r feddyginiaeth a oedd eisoes wedi cael ei roi yn y bwyd, i'r claf, ac nid oedd hi wedi arsylwi ar y claf yn cymryd y feddyginiaeth, cyn llofnodi bod y feddyginiaeth wedi cael ei gweinyddu.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nyrsys cofrestredig wedi arsylwi claf yn cymryd y feddyginiaeth gudd cyn llofnodi'r siart feddyginiaeth i nodi bod y feddyginiaeth wedi cael ei gweinyddu.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd tîm staff ymroddedig a oedd i'w weld yn deall anghenion y cleifion yn ysbyty Dewi Sant yn dda iawn.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu trefniadau eu rota er mwyn sicrhau bod staff yn cydweithio â gwahanol aelodau o staff i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu rhwng staff er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod timau yn datblygu arferion sy'n cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gyson y gofal yn yr ysbyty.

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o staff yn cael eu cyflogi i fodloni datganiad o ddiben yr ysbyty ac anghenion y cleifion; a dylai'r holl staff dderbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth priodol a rheolaidd ac arfarniad.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau clir iawn ar waith er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl a'i strwythur llywodraethu sefydlog, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/a enwebwyd i gwrdd yn rheolaidd i drafod y canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu hadolygu.

Roedd gan uwch reolwyr penodedig gyfrifoldebau penodol dros sicrhau bod y rhaglen ar gyfer llywodraethu'n rhan amlwg o ddarparu gwasanaeth.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Ysbyty Dewi Sant yn barod i wrando ar ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion drwy'r arolygiad ac yn ystod y sesiwn adborth.

Er gwaethaf yr heriau roeddent yn eu hwynebu er mwyn diwallu anghenion cymhleth a newidiol y cleifion, dangosodd ein harsylwadau a thrafodaethau a gynhaliwyd â staff trwy gydol yr arolygiad yn amlwg eu bod yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Roedd hyn yn cynnwys staff amlddisgyblaeth yn ogystal â staff cynorthwyol fel y staff domestig, y cogyddion a'r staff gweinyddol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd gan yr ysbyty dîm amlddisgyblaethol ar waith a oedd yn cynnwys clinigydd a oedd newydd gael ei benodi, nyrsys cofrestredig, seicolegydd clinigol fforensig, cynorthwydd seicolegol, uwch weithiwr cymdeithasol,

therapydd galwedigaethol, tri chynorthwydd therapi galwedigaethol, a thîm o weithwyr cymorth gofal iechyd.

Nododd staff fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn modd proffesiynol a chydweithredol a bod y safbwyntiau proffesiynol unigol hynny'n cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried fel rhan o'r gofal amlddisgyblaethol.

Roedd nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yr ysbyty'n gweithio sifftiau 12 awr o 8am i 8pm ac o 8pm i 8am, gydag aelodau tîm amlddisgyblaethol eraill yn bresennol drwy gydol y dydd. Roedd yr ysbyty yn defnyddio sifft min nos hefyd lle byddai aelodau'r staff yn bresennol rhwng y prynhawn tan hanner nos er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau'r cleifion gyda'r nos.

Wrth adolygu rotas y staff, daeth i'r amlwg bod patrymau rheolaidd yn sifftiau'r aelodau staff. Fodd bynnag, prin iawn roedd staff unigol yn amrywio rhwng timoedd. O ganlyniad, byddai rhai aelodau o staff yn gweithio gyda'r un cydweithwyr bob amser, a byth gydag eraill. Fe fyddai'n fuddiol i staff weithio gydag amrywiaeth eang o staff i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu rhwng staff er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod timau yn datblygu arferion sy'n cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gyson y gofal yn yr ysbyty. Er hyn, rydym yn deall bod rota'r staff presennol yn darparu patrymau sifft rheolaidd ar gyfer ymrwymadau staff tu allan i'r gwaith sydd hefyd angen ei gadw.

Gwnaethom argymhell bod y darparwr cofrestredig yn adolygu rotas staff i sicrhau, lle bo'n bosibl, bod staff yn cylchdroi ac yn gweithio gydag aelodau tîm gwahanol tra ar y run pryd yn rhoi patrymau sifftiau rheolaidd i ddiwallu ymrwymadau staff y tu allan i oriau gwaith.

Roedd lefelau staffio yn ystod ein hymweliad yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Fodd bynnag, fe wnaeth rhai staff nodi pryderon bod adegau pan roedd lefelau staffio yn annigonol, yn enwedig os oedd angen ymgymryd ag arsylwadau estynedig ar gleifion.

Ar adeg ein harolygiad, yn unol â'r hyn a nodir yn y Datganiad o Ddiben, roedd saith swydd wag ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Rhaid i'r darparwr cofrestredig recriwtio ar gyfer y swyddi gwag hyn; byddai hyn yn darparu gwell gwytnwch a hyblygrwydd i'r rheolwr cofrestredig i ymdrin ag absenoldebau staff neu pan fod angen staff ychwanegol ar gyfer cynnal archwiliadau estynedig ar gleifion.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod sefydliad y staff yn bodloni Datganiad o Ddiben yr ysbyty.

Roedd cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol yn dda. Gwnaethom adolygu'r matrices hyfforddiant ac roeddem yn gallu gweld cyfraddau cwblhau uchel (75%+) mewn pob cwrs hyfforddiant ag eithrio un, sef *Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid*, a oedd yn dangos 19%. Gwnaeth y darparwr cofrestredig ein hatgoffa y byddai staff yn cwblhau'r hyfforddiant gofynnol gyda sesiynnau a drefnwyd yn ystod y tri mis nesaf.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Gwnaethom siarad â staff a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi derbyn hyfforddiant gorfodol a'u bod yn cael eu hatgoffa pan oedd yr hyfforddiant ar fin dod i ben. Wrth siarad â staff, teimlwyd y byddent yn elwa ar gael hyfforddiant ychwanegol penodol yn ymwneud â'r grŵp o gleifion y maen nhw'n gofalu amdanynt, e.e. therapi ymddygiad dialectig, delio gyda phobl sydd â hanes o droseddau rhywiol, ac ati. Gwnaethom argymhell bod y darparwr cofrestredig yn trefnu hyfforddiant ychwanegol er mwyn i staff fodloni anghenion y grŵp cleifion yn well.

Roedd yn amlwg bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a goruchwyliaeth reolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod un nyrs gofrestrdig a oedd yn gweithio yn ystod ein harolygiad, yn ôl y manylion a oedd gan y darparwr cofrestredig, nad oedd wedi derbyn goruchwyliaeth ers mis Mehefin 2015. Roedd arfarniadau blynyddol nifer o aelodau staff wedi mynd tu hwnt i 12 mis.

Cam Gofynnol

Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau priodol yn rheolaidd.

4. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Annibynnol Dewi Sant yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesurrol, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru⁶. Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:** Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:** Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:** Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth

⁶ Cyhoeddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Bwriad y safonau yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael eu sicrhau o wasanaethau diogel o ansawdd.

<http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau penodol sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

Rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Ar gyfer gwasanaethau annibynnol, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu ynghylch pryderon pwysig ac achosion difrifol o dorri rheoliadau trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.⁷ Mae'r canfyddiadau hyn (lle y maent yn berthnasol) wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

⁷ Yn rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno lle mae diffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiant systemig. Bydd hyn pan fo canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a phan fo methiannau'n arwain at beryglu hawliau pobl. Mae copi o broses gydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol Dewi Sant

Dyddiad yr Arolygiad: 20 ac 21 Mawrth 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
7	Dylai'r darparwr cofrestredig drafod â staff ynghylch syniadau ac awgrymiadau ar gyfer cynnal gweithgareddau ychwanegol yn Ysbyty Dewi Sant.	8	Mae'r holl staff wedi cael trafodaeth ynghylch eu barn a'u syniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae blwch awgrymiadau ar gael ac mae staff yn cael eu hannog i wneud awgrymiadau a chyflwyno syniadau yn ogystal ag yn ystod arfarniadau a chyfarfodydd staff. Mae nifer o awgrymiadau wedi cael eu cymryd o ddifrif a'u cyflwyno i'r system. Fodd bynnag, gan fod hyn wedi cael ei nodi yn ystod yr arolygiad, byddwn yn ail ymweld â'r staff ac yn cynnal trafodaeth ffurfiol gyda nhw	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Nyrs Arwain Clinigol Uwch-nyrsys Aelodau o'r tîm amllddisgyblaethol Kevin Shields (Unigolyn)	Diwedd mis Ebrill 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ynghylch syniadau ac awgrymiadau.	Cyfrifol)	
8	Rhaid i'r darparwr cofrestredig ymgymryd ag adnewyddu'r gegin therapi galwedigaethol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i chadw a'i dodrefni'n briodol.	8	Mae hon yn eitem sydd wedi dod i'r amlwg cyn yr arolygiad ac mae wedi'i nodi ar yr agenda i'w thrafod yn ystod cyfarfod adolygu nesaf y rheolwyr gyda'r tîm rheoli gweithredol a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mai 2017	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Tîm Rheoli Gweithredol Kevin Shields (Unigolyn Cyfrifol)	Mai 2017
8	Dylai'r darparwr cofrestredig fuddsoddi mewn gwella'r Ystafell Synhwyrdd er mwyn i'r grŵp o gleifion gael gwell budd ohoni	8	Yn unol â'r eitem uchod, fe fydd hyn yn cael ei drafod gyda'r tîm rheoli gweithredol yn ein cyfarfod adolygu ym mis Mai 2017	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Tîm Rheoli Gweithredol Kevin Shields (Unigolyn Cyfrifol)	Mai 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
10	<i>Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ffeiliau'r cleifion er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hawdd ei chanfod ac nad yw'r ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth nad yw'n gyfredol na gwybodaeth sydd wedi'i dyblygu.</i>	20	Rydym yn gweithio tuag at gyflwyno cofnodion electronig i gleifion mewn ysbytai o fewn Gofal Iechyd Meddwl DU ac mae hyn ar y gweill, gobeithiwn y bydd wedi'i gwblhau eleni. Fodd bynnag, yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Ysbytai Gofal Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydamserol, bod cofnodion cleifion yn berthnasol a bod yr wybodaeth yn hawdd ei chanfod.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Nyrs Arwain Clinigol Uwch-nyrsys Adran TG Ysbytai Gofal Iechyd Meddwl	Gorffennaf 2017
10	Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod staff yn cofnodi eu bod wedi darllen a deall Cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol pob claf.	20	Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chreu cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol a arweinir gan ein seicolegydd ffforensig a'n seicolegydd cynorthwyol, i'r holl staff a fydd yn llofnodi i ddangos eu bod yn ymwybodol ohono a'u bod wedi'u deall. Fe fydd gennym sesiynau cyfnewid gwybodaeth hefyd, ar gyfer staff er mwyn sicrhau eu bod wedi llwyr ddeall cynnwys y cynlluniau cymorth ymddygiad	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Seicolegydd ffforensig a Seicolegydd cynorthwyol Tîm staff y practis Aelodau tîm amlddisgyblaethol	Parhaus 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			cadarnhaol.		
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ystafelloedd cawodyn briodol er mwyn atal llwydni rhag cronni.	12	Mae hyn bellach wedi'i gywiro ac mae ystafelloedd cawod wedi cael eu hailaddurno gyda phaent arbennig sy'n atal llwydni. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan staff yr ysbyty ac os bydd y broblem yn parhau yna bydd mesurau eraill yn cael eu rhoi ar waith er mwyn datrys y broblem.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Tîm Ystadau Tîm staff y practis Tîm Rheoli Gweithredol Kevin Shields (Unigolyn Cyfrifol)	Mae'r gwaith eisoes wedi cael ei gwblhau fodd bynnag fe fydd yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu.
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cyfleusterau toiled yn cael eu cadw'n lân ac yn rhydd rhag staeniau.	12	Mae hyn eisoes wedi cael ei ddatrys ac mae'r staff cadw tŷ wedi bod mewn trafodaethau ynghylch gwneud gwiriadau a glanhau yn yr un modd â thîm y staff glanhau. Byddwn yn rhoi ffurflenni monitro ym mhob toiled er mwyn nodi bob tro y byddant yn cael eu glanhau.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Staff cadw tŷ Tîm staff y practis	Parhaus 2017
11	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn gallu gofyn am gymorth pan fyddant yn eu gwely.	22	Rydym yn adolygu'r system larwm er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn gallu canu'r larwm yn eu hystafell gwely.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig)	Diwedd mis Mai 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
				Tîm Ystadau	
12	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod eitemau bwyd yn cael eu storio yn briodol.	14	Roedd y broblem hyn o ganlyniad i'r gwaith ailwampio parhaus yn y gegin pan fu'r adolygwyr yn ymweld â'r safle. Mae'r broblem hon bellach wedi'i datrys.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Staff arlwyo	Cwblhawyd ar unwaith ar ôl yr arolygiad
13	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nyrsys cofrestredig yn arsylwi bod claf wedi cymryd meddyginiaeth gudd cyn llofnodi'r siart feddyginiaethau i nodi bod y feddyginiaeth wedi cael ei gweinyddu.	15	Mae'r holl nyrsys cymwys wedi cael eu gweld ac fe'u hatgoffwyd o'u cyfrifoldebau ynghylch gweinyddu meddyginiaeth a gweinyddu meddyginiaeth gudd. Mae nodyn atgoffa ynghylch y mater hwn wedi cael ei atodi i ffeil bersonol y nyrs dan sylw. Hysbyswyd staff cynorthwyol hefyd nad ydynt yn gallu gweinyddu meddyginiaeth gudd i unrhyw glaf. Mae cynllun gofal meddyginiaeth gudd y claf hwn wedi cael ei addasu i adlewyrchu hyn.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Tîm Staff Nyrsio Staff Cymorth	Cwblhawyd ar unwaith ar ôl yr arolygiad

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
15	Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu rotas staff er mwyn sicrhau, lle bo'n bosibl, bod staff yn cylchdroi ac yn gweithio gydag aelodau timau gwahanol ond ar yr un pryd rhoi patrymau sifft rheolaidd i staff fel eu bod yn gallu diwallu ymrwymadau y tu allan i'r oriau gwaith.	24	Trafodwyd y mater hwn â'r staff yn dilyn yr arolygiad ac mae trafodaethau ar waith i gasglu eu syniadau ynghylch patrymau sifft y dyfodol a fydd yn cael eu hadolygu a'u trafod â nhw cyn i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith. Mae hyn hefyd yn cael ei drafod â'r tîm gwasanaethau pobl er mwyn sicrhau bod materion contractau staff yn cael eu hystyried.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Tîm Rheoli Gweithredol Kevin Shields (Unigolyn Cyfrifol) Tîm Gwasanaethau Pobl Tîm Cyflogau Tîm staff	Adolygiad i'w gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
16	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod sefydliad y staff yn bodloni Datganiad o Ddiben yr ysbyty.	24	Er y cydnabyddir bod y tîm arolygu wedi cael eu hysbysu bod sifftau lle roedd prinder aelodau o staff, mewn gwirionedd mae'n ymddangos nad yw hyn yn fanwl gywir ac mai eithriad oedd hyn yn hytrach na'r arfer. Bu nifer o achlysuron fel y bydd amserlen y staff yn dangos, bod niferoedd y staff y tu hwnt i'r niferoedd gofynnol ac fe fu mwy o staff ar ddyletswydd na nifer y cleifion a oedd yn bresennol. Gwnaethom gytuno ag AGIC i osod embargo gwirfoddol ynghylch derbyn cleifion yn ystod y broses o adnewyddu ac felly mae'r ysbyty wedi bod yn cael ei gynnal gyda lleihad yn nifer y cleifion ers cryn dipyn o amser. Rydym wedi dechrau ar y broses o recriwtio wrth i'r gwaith adnewyddu ddechrau dod i ben a chyn hir byddwn yn dechrau derbyn mwy o	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Uwch-nyrsys Aelodau tîm amlddisgyblaethol	Parhaus 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			gleifion.		
16	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.	24	Mae'r holl staff yn cael eu hannog i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol a threfnwyd sesiynau penodol â'r adran hyfforddi a fydd yn hwyluso'r rhain yn Ysbyty Dewi Sant er mwyn sicrhau bod holl hyfforddiant gorfodol i staff yn cael ei gwblhau yn enwedig ynghylch Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Galluedd Meddyliol fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Adran Hyfforddi Tîm staff Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl	Diwedd Mehefin 2017 Ac yn parhau
16	Dylai'r darparwr cofrestredig drefnu hyfforddiant ychwanegol er mwyn i'r staff fodloni anghenion y grŵp cleifion yn well.	24	Rydym yn casglu barn staff er mwyn canfod pa fath o hyfforddiant penodol sydd ei angen arnynt ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau â'r adran hyfforddi ynghylch hyfforddiant i ehangu sgiliau ar gyfer yr holl aelodau o staff er mwyn sicrhau ein bod yn darparu hyfforddiant yn unol â gofynion ein datganiad o ddiben. Rydym hefyd yn gobeithio darparu hyfforddiant mewnol i staff drwy rhaglen cyfnewid gwybodaeth lle	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Aelodau tîm amlddisgyblaethol Adran Hyfforddi Tîm staff	Parhaus 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Safon	Camau Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			mae staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant ychwanegol/cyrsiau a ddarparwyd gan ddarparwyr allanol er mwyn ehangu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau. Yn ogystal â hyn, mae'r holl staff yn cael eu hannog i ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant		
16	Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau priodol yn rheolaidd.	24	Rydym yn anelu at sicrhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn goruchwyliaeth o leiaf am yn ail fis. Bydd hyn dan ofal y Nyrs Arwain Clinigol a'r Uwch Staff Nyrsio a bydd yn cael ei archwilio drwy'r broses lywodraethu clinigol a bydd ystadegau yn cael eu darparu a'u golygu fesul mis.	Sean Holcroft (Rheolwr Cofrestredig) Nyrs Arwain Clinigol Uwch Nyrsys Staff Aelodau tîm amlddisgyblaethol	2017 ac Ymlaen

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Sean Holcroft

Teitl: Rheolwr Ysbyty Cofrestredig, Ysbyty Annibynnol Dewi Sant

Dyddiad: 11 Ebrill 2017